| Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 13eg o Ionawr 2026 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr. | |
|---|---|
| **PRESENNOL** | |
| Eifion Williams | Owain Jones |
| Meleri Jones | Dafydd Huws |
| Dan Williams | Deiniol Tegid |
| Llŷr Evans | Emyr Gareth |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| **1.1** | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Humphreys, Cynghorydd Iolo Williams, Cynghorydd Eleri Wyn Thomas a'r Cynghorydd Cynog Prys. | **CLERC** |
| **1.2** | Praesept - cyflwynwyd cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026 - 2027 gan y Clerc. Roedd chwyddiant oddeutu 3% ac nid oedd yn hysbys faint fyddai codiad y dreth cyngor gan Gyngor Gwynedd am yr un flwyddyn ariannol. Roedd codiad yn y pris blynyddol am y toiledau cyhoeddus yn 36% felly penderfynwyd byddai praesept y Cyngor Cymuned am y flwyddyn ariannol yn fwy o 4% ynghyd a 36% ar gost flynyddol y toiledau ac felly'r cyfanswm fyddai £54,729.00. | **CLERC** |
| **2.0** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **3.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **3.1** | Eitem 10.1 Cynghorydd Emyr Gareth. | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **4.1** | Derbyniwyd gwariant mis Ionawr 2025. Derbyniwyd hefyd adroddiad ariannol am y mis hwnnw. | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **5.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2025. | |
| **5.2** | Cynllun Rheoli Traffig - nid oes pris wedi ei dderbyn ar gyfer codi'r arwyddion ar gyfer opsiwn 1, y Clerc i anfon at yr Adain Draffig Cyngor Gwynedd am unrhyw ddilyniant. | **CLERC** |
| **5.3** | Llwybr Cerrig yr Afon - mae rhan o ffens y llwybr angen sylw. Credir bod cyfrifoldeb am y rhan yma o'r ffens gyda Chyngor Gwynedd. Y Clerc i anfon at Swyddog Cynnal Lwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd. | **CLERC** |
| **5.4** | Prydlesau wedi eu hanfon at y cyfreithiwr er sylw. Y Clerc i anfon ymateb y cyfreithiwr cyn gynted a bydd wedi derbyn adroddiad. | **CLERC** |
| **5.5** | Ymestyn llwybr Beicio ger yr hen fodurdy - y Clerc wedi anfon at y Swyddog perthnasol ond dim sylw cadarnhaol wedi dod oddi wrtho, y Clerc i anfon at y Swyddog eto ac yna i drefnu cyfarfod. | **CLERC** |
| **5.6** | Cais Cynllunio pêl droed Ffordd lan y môr - dim dilyniant hyd yma. | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dim | |
| **8.0** | **RHEOLAETH** | |
| **8.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **8.2** | Polisi Meinciau - mae angen adolygu'r polisi gan y Pwyllgor | **RHEOLAETH** |
| **9.0** | **ASEDAU** | |
| **9.1** | Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn gofyn am bris i Designer Signs Caernarfon am y gwaith o gynnal y ffenestri Polycarbonate a gofyn am bris i adeiladwr lleol ar gyfer gwaith trwsio to'r cysgodfan gyferbyn a'r siop. | **CLERC** |
| **9.2** | Tir yr hen Rheilffordd - mae gwaith y tocio wedi gwneud gwahaniaeth ac roedd y Cynghorydd Daniel Williams am gyfathrebu a Chyngor Gwynedd i ymestyn y gwaith tocio yn syth a dim disgwyl am flwyddyn arall gan nad oedd dim pwrpas i ddisgwyl. | **CLERC** |
| **10.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **10.1** | Cafwyd adroddiad bod y Lon las sydd yn rhedeg ger Hen Safle Ferodo mewn cyflwr drwg iawn a bod peryg i feicwyr syrthio. Efallai bydd cyfle i ofyn i ddatblygwyr y safle i fuddsoddi mewn gwelliant i'r Lon Las. Y Clerc i anfon at Swyddog y Lon Las. | **CLERC** |
| **11.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **11.1** | Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn sicrhau bod Prawf trydan yn cael ei wneud ar offer symudol y neuadd. | **DW** |
| **11.2** | Y Clerc i edrych ar offer diffodd tân - mae dyddiad gwasanaethu'r offer wedi dod i ben. Ystyriaeth i'w roi i archebu P%), water mist fire extinguishers sydd yn caniatáu cael eu defnyddio ar gyfer amryw o ddosbarthiadau tân gan gynnwys trydan. | **CLERC** |
| **11.3** | Roedd adroddiad wedi ei dderbyn bod dŵr wedi dod i mewn i'r neuadd eto, ymwelodd â'r Cynghorydd Daniel Williams a'r neuadd a gwelwyd bod glaw yn gallu cael ei chwythu o dan lechi'r to pan fydd gwynt o'r dwyrain. Nid oes ffelt o dan y llechi ac felly mae hyn i'w ddisgwyl. | **DW** |
| **12.0** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| **12.1** | Hyfforddiant yw trefnu pan fydd y dydd wedi mystyn. Credir erbyn mis Mawrth fydd yr hyfforddiant wedi ei gwblhau. | **DW** |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |